**EITEM AR YR AGENDA: 15**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER YR AWDURDOD TÂN**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 15fed Rhagfyr 2003 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi gwybod i'r aelodau am gais i roi peiriant tân sydd dros ben yn rhodd i Bosnia |

1. **CEFNDIR**

1.1 Yn hydref 2002 daeth Mr Chad Hudson o'r *Emergency Services (Promotions Department) Ltd*, Stryd y Brenin, Wrecsam, yn anffurfiol at Wasanaeth Tân Gogledd Cymru ar ran y Gymdeithas Tân ac Achub Ryngwladol *(IFRA)*, sydd yn elusen gofrestredig (SCO Rhif: 033401).

1.2 Roedd Mr Hudson yn holi oedd gennym ni beiriant tân dros ben gyda golwg i fynd ag o i Bosnia i gryfhau'r offer ymladd tân cyfyngedig sydd ar gael i'r cymunedau yno.

1.3 Mae Mr Hudson eisoes wedi rhoi dau beiriant tân i IFRA ac mae'r rhain yn cael eu defnyddio mewn ardal o Bosnia lle mai dyna'r unig ddarpariaeth ymladd tân o fewn deugain milltir.

1.4 Ar 22ain Medi 2003 gwnaeth Mr Hudson gais ffurfiol yn holi am y rhaglen cael gwared ar beiriannau tân, a gofyn am syniad o'r pris a ddisgwylir pan fydd y cerbydau hyn yn mynd i ocsiwn.

2. **GWYBODAETH**

2.1 Bydd 5 o beiriannau tân ar gael i fynd yn Chwefror 2004, ac mae 5 arall wedi eu clustnodi i fynd yng nghanol 2004.

2.2 Un o'r peiriannau dros ben fydd ar gael i fynd yn Chwefror 2004 ydy tendr dŵr Mercedes 1120 Carmichael sy'n dair ar ddeg oed, sydd â phwmp pwysedd uchel 2250 litr y funud. Mae hwn i'w weld yn gerbyd addas i'w ddefnyddio i gyd-fynd â dyheadau IFRA i wasanaethu'r gymuned yn Bosnia (gweler y llythyr ynghlwm).

2. **GWYBODAETH** *(parhad)*

2.3 Yr Awdurdod Tân sydd biau'r cerbyd dan sylw, ac nid trwy brydles gweithredu y cafodd ei brynu. Felly, nid oes angen i'r Awdurdod Tân gael rhagor o awdurdod i gael gwared arno.

2.4 Y pris a ddisgwylid ei gael mewn ocsiwn gerbydau am gerbyd o'r oed yma fyddai tua £1,000.

2.5 Mae'r Awdurdod Tân wedi rhoi hen Offer Gwarchod Personol o'r blaen, i Rwmania i helpu gyda'r rhaglen Cymorth i Rwmania. (gweler yr adroddiad i'r Awdurdod Tân 18.09.2000).

2.6 Byddai'r hen beiriant tân ar gael o Weithdy Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yng Nghyffordd Llandudno. Y perchnogion newydd fyddai'n gyfrifol am gostau ei gludo o'r fan honno.

2.7 Bydd y dogfennau (gan gynnwys manylion gwasanaeth a pherchnogaeth y cerbyd) yn cael eu darparu.

3. **ARGYMHELLIAD**

3.1 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo rhoi un peiriant tân dros ben i'r Gymdeithas Tân ac Achub Ryngwladol trwy Mr Hudson.

3.2 Bod yr Aelodau'n cytuno i roi'r ased yma yn rhad ac am ddim.